# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

# Adroddiad Blynyddol 2023/24

# Mawrth 2024

## Cyflwyniad

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys wardiau **Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin.** Mae ardal Golan wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Poblogaeth o 1009 (Cyfrifiad 2021) sydd gan Ward Dolbenmaen, ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Mae'r Cyngor Cymuned yn weithgar iawn ac yn gwneud gwaith amgylcheddol, yn cefnogi datblygiadau cymunedol ac yn cynorthwyo'r trigolion gyda materion personol a chymunedol. Rydym yn cynnig sylwadau ar bob cais cynllunio o fewn y gymuned.

Er mai dim ond Ysgol Garndolbenmaen sydd o fewn dalgylch y Cyngor, mae Ysgol Gynradd Llangybi, Ysgol y Gorlan Tremadog, Ysgol Treferthyr Cricieth ac Ysgol Borth y Gest hefyd yn gwasanaethu plant yr ardal. Dwy ysgol uwchradd sydd yn gwasanaethu'r ardal sef Ysgol Eifionydd, Porthmadog ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

## Dyletswyddau

Mae Cynghorau Cymuned yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn eu siroedd. Eu prif nod yw gwella amgylchedd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd.

Mae gan Gynghorau Cymuned bwerau cyfreithiol i ddarparu rhai gwasanaethau, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir yn eu hardal.

Dyma ambell beth mae Cynghorau Cymuned yn gyfrifol amdanynt –

- hysbysfyrddau ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd
- meinciau cyhoeddus a llochesi bysiau
- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
- gofalu am fynwentydd.

## Aelodaeth

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnwys **16** o Gynghorwyr sy'n cynrychioli'r wardiau.

| **Ward** | **Cynghorwyr** |
|---|---|
| Bryncir | Mr Edward Evans<br>Mr Richard Parry |
| Prenteg | Mr Richard Williams<br>Mr Gwilym Evans |
| Garndolbenmaen | Mr John Jones<br>Mr Clifford Williams<br>Mrs Enid Egginton<br>Mr Michael Jones |
| Golan | Mrs Megan Lloyd Williams |

| | |
|---|---|
| | Mr John Till |
| Pentrefelin | Mr Huw Pritchard<br>Mr Raymond Jones<br>Mrs Sarah Jones |
| Penmorfa | Mrs Jess Williams<br>Mrs Gwenno Emlyn Huws<br>Mr Iddon Edwards |

## Staff

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyflogi Clerc a Swyddog Ariannol sy'n gweithio'n rhan amser am **7 awr** yr wythnos.

Y Clerc yw: Miss Eleri Davies, Cartrefle, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9LX.

## Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan ar nos Iau gyntaf y mis am 7 o'r gloch. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fo materion sensitif yn cael eu trafod. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai, ym mhob ward yn eu tro.

Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor Cymuned, mae is-bwyllgorau wedi ei sefydlu - Cyllid a Llywodraethant, Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Eiddo.
Bydd yr is-bwyllgorau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd unrhyw argymhellion a wneir gan yr aelodau yn cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.

Yn ystod 2023 - 2024, mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

## Safle We

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ynghyd a manylion gwariant y Cyngor Cymuned i'w gweld ar y safle we www.Dolbenmaen.Cymru.

## Atebolrwydd

Ar ôl cael eu hethol, mae'n rhaid i'r Cynghorwyr lofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i lynu wrth y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cynghorwyr i weithredu'n briodol.

Disgwylir i'r Cynghorwyr ddatgan buddiant personol mewn unrhyw eitem ar yr Agenda os ydynt yn ymwybodol y gallent elwa mewn unrhyw fodd. Nid yw Cynghorwr (yr) sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Cedwir cofnod o'r buddiannau personol ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn flynyddol.

Mae’r rheolau ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi’u cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.  Mae’r rhain yn cynnwys rheolau gweithdrefn a bennwyd yn y gyfraith. Maent yn helpu’r Cyngor Cymuned i weithredu’n ddidrafferth.

## **Aelodaeth Allanol**

Mae’r Cyngor Cymuned yn aelod o Unllais Cymru - y corff ar gyfer Cynghorau Cymuned a Threfi, Cymru. Mae Unllais Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol, hyfforddiant a gwybodaeth ar ddatblygu polisïau.

Mae dau o’r Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd Unllais ar gyfer ardal Arfon/Dwyfor.

Bydd un o’r Cynghorwyr, bob yn ail gyda chynrychiolydd o Gyngor Tref Porthmadog, yn gwasanaethu ar fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan.

Mae un o’r Cynghorwyr yn cynrychioli’r Cyngor Cymuned ar Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd.

## **Cyllideb**

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn ceisio rhagweld pa wasanaethau y bydd yn eu darparu, ac yn amcangyfrif faint o arian fydd ei angen arno i'w cyllido. Paratoir cyllideb fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr.   ‘Gosod praesept’ yw’r term swyddogol am hyn, ac mae’r arian yn cael ei gasglu drwy’r Dreth Gyngor.

Mae’r gwariant yn cael ei fonitro yn fisol a'r Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd llawn.  Mae’r llyfrau ariannol yn cael ei gwirio yn chwarterol gan ddau Gynghorydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y llyfrau ariannol yn cael ei archwilio gan archwilydd mewnol sef Cwmni A-Hughes Jones, Dyson ac yn cael archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## **Rhoddion Ariannol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gynghorau Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor o’r farn y bydd y gwariant o fydd uniongyrchol i'r ardal.  Rhoddir caniatâd hefyd i'r Cyngor wario at ddibenion elusennol.

Bob blwyddyn, rhoddir cyfle i fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor a thu hwnt, wneud cais am rodd ariannol.  Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Clerc a rhoi manylion bras am waith y mudiad ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dros y blynyddoedd, mae’r Cyngor wedi rhoi arian i'r canolfannau cymdeithasol yn yr ardal, i gylchoedd meithrin lleol ac i amrywiol elusennau, grwpiau a chymdeithasau yn yr ardal leol a thu hwnt.  Yn ogystal, gall y Cyngor ystyried defnyddio arian o Gronfa’r Cadeirydd ar gyfer cais am gymorth sydd wedi methu’r dyddiad cau diwedd mis Rhagfyr.

## Derbyniadau a Thaliadau 2023 - 2024

| **Derbyniadau** | |
|---|---|
| Llog | £494.97 |
| Praesept/Grantiau | £18,000 |
| Mynwentydd | £2,165.00 |
| Arall | £2,571.76 |
| TAW | £909.00 |
| **Cyfanswm** | **£24,140.73** |
| | |
| **Taliadau** | |
| Cyflog | £4,007.55 |
| Costau Ffon / Cyfrifiadur Clerc | £420.00 |
| Treth | £836.78 |
| Mynwentydd | £3,259.44 |
| Llwybrau | £1,560.00 |
| Cae Chwarae Penmorfa | £600.00 |
| Hyfforddiant | £0.00 |
| Deunyddiau | £342.63 |
| Hysbysebu | £108.00 |
| Rhoddion Ariannol | £3,500.00 |
| Yswiriant | £1,223.24 |
| Cyfieithu | £0.00 |
| Rhent | £320.00 |
| Aelodaeth | £55.00 |
| Archwilio Cyfrifon | £300.00 |
| Arall | £3549.68 |
| TAW | £813.77 |
| **Cyfanswm** | **£20,896.09** |

## Gweithgareddau'r Cyngor 2023-2024

Mynwentydd

Torrir y gwair yn rheolaidd yn y Mynwentydd rhwng mis Mai a mis Medi.

Llwybrau Cyhoeddus

Mae 21 o lwybrau'r ardal yn cael eu torri yn ystod tymor yr haf. Bydd y Cyngor Cymuned yn adrodd am unrhyw ddiffyg neu rwystr ar y llwybrau cyhoeddus i'r Uned Hawliau Tramwy o fewn Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

Yn dilyn adrodd am ddiffyg a chael cyfarfod safle gyda Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd y llynedd, braf yw cael adrodd fod y gwelliannau i lwybr Cambrian Terrace heibio Bryn Moel yng Ngarndolbenmaen wedi ei gwblhau yn gynharach eleni.

Mae ardal Cwmystradllyn yn parhau i fod yn boblogaidd iawn ymysg cerddwyr ac mae llawer iawn yn cerdded ar hyd yr hen dramffordd. Mae'r llwybr yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ac mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i fod yn awyddus iawn i'w gadw. Mae'r llwybr i Chwarel Gorseddau wedi derbyn sylw yn y papurau newydd ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cysylltu gydag Uned Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd i ofyn â fyddai'n bosib cael cydweithio gydag hwy â Pharc Cenedlaethol Eryri i ddod a'r rhwydwaith i safon.

Cafwyd cyfarfod safle ym mis Rhagfyr gydag Swyddog o'r Uned Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd i drafod cyflwr y llwybr sydd yn arwain o Eglwys Ynys Cynhaearn, Pentrefelin i gyfeiriad y traeth. Mae rhan helaeth o'r llwybr wedi bod o dan ddŵr ac yn amhosib i'w gerdded ar ei hyd i'w archwilio'n iawn. Mae'r swyddog am ail ymweld â'r llwybr a'i gerdded o gyfeiriad Fferm Penrhyn at y llifddor pan fydd y tywydd wedi gwella a sychu.

<u>Cae Chwarae Penmorfa</u>

Braf yw cael adrodd bod y Cae Chwarae a'r Ardd Gymunedol yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr i gymuned Penmorfa.

<u>Materion Priffyrdd</u>

Mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn rheolaidd i adrodd am unrhyw ffosydd, cwlferi a draeniau sydd angen eu glanhau. Mae'r Cyngor Cymuned yn adrodd ac yn gweithredu ar unrhyw bryderon all beri niwed i drigolion ac ymwelwyr i'r ardal.

<u>Lôn Llecheiddior Uchaf, Bryncir</u>

Cafwyd cyfarfod safle gyda Swyddog o'r Uned Draffig, Cyngor Gwynedd i drafod pryderon fod loriau mawr yn ceisio mynd fyny'r ffordd gul ac anaddas i gyfeiriad Llecheiddior Uchaf. Y grêd oedd nad oedd yr arwyddion yn ddigon clîr a gweladwy i yrrwyr loriau.

Fel datrysiad posib, penderfynwyd osod arwyddion mwy bob ochr i'r gyffordd fel ei fod yn glîr i loriau oedd yn teithio o gyfeiriad Porthmadog a Chaernarfon.

<u>Lôn Fudr, Golan</u>

Cafwyd cyfarfod safle gyda Swyddog o'r Uned Draffig, Cyngor Gwynedd i drafod pryderon am gyffordd Lôn Fudr a hefyd bod coed yn gor-dyfu ar ei hyd. Fel datrysiad, penderfynwyd i osod arwydd tua hanner ffordd i fyny'r lôn o gyfeiriad Golan yn rhybuddio gyrrwyr fod yna gyffordd ym mhen dipyn.

Bwlch y Moch, Prenteg

Roedd pryderon am ddiogelwch y darn yma o ffordd. Pryderon am geir yn parcio ar ymylon y ffordd; am gyflymder y ffordd ac am bobl yn cerdded / beicio ar hyd y ffordd. Cynhaliwyd cyfarfod safle aml asiantaeth i drafod y pryderon yma ac i chwilio am ddatrysiadau posib. Adroddwyd am y pryderon yma i'r Uned Draffig a gofynnwyd am archwiliad o'r safle. Cafwyd argymhelliad gan yr Uned Draffig i gael arwyddion "Araf / Slow" wedi eu peintio ar y ffordd ac arwyddion "lleiniau meddal" i geisio atal dringwyr rhag parcio ar ymylon y ffordd. Penderfynwyd derbyn y cynlluniau yma ac mae'r arwyddion wedi cael eu gosod. Bwriedir monitro'r sefyllfa am y misoedd sydd i ddod.

Cyffordd Glandwyfach

Adroddwyd ar fwy nag un achlysur am gyflwr gwael y gyffordd yn Glandwyfach. Cafwyd cyfarfod safle gyda Swyddog o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Braf yw cael adrodd fod y gwaith o ail arwynebu'r gyffordd wedi cael ei wneud.

Adroddwyd hefyd i'r Asiantaeth fod y gyffordd yn gallu bod yn beryg a bod angen arwyddion ychwanegol. Y gobaith yw y bydd y gwaith yma yn cael sylw gan yr Asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol newydd. Bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i ddilyn y mater yma i fyny.

Llochesi Bws

Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw llochesi bws yr ardal. Bu i'r Cyngor Cymuned drefnu i gael glanhau'r llochesi bws yn yr haf. Trefnwyd hefyd i dorri gor-dyfiant o amgylch lloches bws Bryncir, a hefyd y gordyfiant oedd yn cuddio arwyddion arosfan bws ger y Ganolfan Gymdeithasol yn Golan. Braf hefyd yw cael adrodd bod y fainc yn y lloches bws ger Clennenau, Golan wedi cael ei newid am un pren. Roedd yr un yno wedi rhydu a phydru ac yn hynod beryg i ddefnyddwyr.

## Ceisiadau Cynllunio/Datblygiadau yn yr Ardal

Derbyniwyd manylion **14** o geisiadau cynllunio ar gyfer y Ward –

| | |
|---|---|
| Bryncir | 1 |
| Prenteg | 1 |
| Cwm Pennant | 1 |
| Garndolbenmaen | 3 |
| Pentrefelin | 1 |
| Golan a Chwmystradllyn | 6 |
| Penmorfa | 1 |

Ni wrthwynebwyd unrhyw gais Cynllunio.

## Materion Cyffredinol

Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin

Er mwyn codi proffil yr ardal a denu mwy o ymwelwyr comisiynwyd yr arlunydd lleol, Ffion Gwyn i ddylunio bwrdd gwybodaeth i'w osod ym Mhentrefelin i adrodd hanes a chydnabod enwogion y from megis John Ystumllyn a Dafydd y Garreg Wen ac amryw o rai eraill. Defnyddwyd saer lleol, Dafydd Williams i greu y ffram ac i osod y bwrdd ym Mhentrefelin ger y fainc yng nghanol y pentref. Gosodwyd arwydd yng ngheg y ffordd sydd yn arwain at Eglwys Ynys Cynhaearn

Gwaith Dŵr Cwmystradllyn

Bu i'r Cyngor Cymuned gysylltu gyda Dŵr Cymru i adrodd ar gyflwr y gwaith dŵr yng Nghwmystradllyn. Cafwyd cyfarfod safle cynhyrchiol iawn yno ac mae gwaith yn digwydd yno ar hyn o bryd i dorri a chlirio'r holl goed ac i dynnu'r tanc $CO_2$.

Cynllun Heddlu Ysgolion

Bu i'r Cyngor Cymuned gysylltu â Liz Saville-Roberts a Mabon ap Gwynfor i adrodd eu pryderon a'u siomedig-rwydd fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi gorau i ariannu'r cynllun yma sydd yn rhoi deilliannau addysgiadol pwysig i blant Cymru.

## Cynlluniau sydd ar y gweill

Bryn Tyddyn – Pentrefelin

Hoffai'r Cyngor Cymuned greu cae chwarae ag gardd gymunedol ar ddarn o dir ger Bryn Tyddyn gan roi ystyriaeth i fioamrywiaeth. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i wneud ymholiadau parthed perchnogaeth y darn o dir sydd o dan sylw.

Polisi Cwynion

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon er budd pobl sy'n byw, gweithio neu'n ymweld ag ardal Dolbenmaen ond mae'n hynod bwysig bod gan y Cyngor weithdrefn gwyno glir sydd yn egluro sut all y cyhoedd gwyno a sut y byddwn fel Cyngor yn ceisio datrys eu cwynion. Mae'n fwriad gan y Cyngor i lunio Polisi Cwynion.